## P-05-829 Gwahardd Eitemau Plastig Untro yng Nghymru

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Ban Plastic Straws Wales, ar ôl casglu 161 o lofnodion.

### Geiriad y ddeiseb

Rydym yn galw ar Gynulliad Cymru i wahardd pob eitem blastig untro yng Nghymru. Amcangyfrifir bod y DU ac UDA yn unig yn taflu tua 550 miliwn o wellt plastig bob dydd. Er bod pob un ond yn cael ei ddefnyddio am gyfartaledd o 20 munud yn unig, maent yn cymryd canrifoedd i bydru. Yn ystod ymgyrch lanhau gan y Gymdeithas Cadwraeth Forol y llynedd, ar gyfartaledd, canfu 138 o ddarnau o wastraff yn gysylltiedig â bwyd a diod ar bob 100m o draethau'r Deyrnas Unedig.

Mae angen atal hyn ac mae angen i'r amgylchedd fod yn flaenoriaeth.

### Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Sir Drefaldwyn
- Canolbarth a Gorllewin Cymru